

Rhif: WG?????



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Pecyn cymorth gweithredu drafft ar gyfer cwnsela mewn ysgolion a chymunedau

Dyddiad cyhoeddi: 23 Hydref 2019
Camau gweithredu: Ymatebion erbyn 18 Rhagfyr 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Pecyn cymorth gweithredu drafft ar gyfer cwnsela mewn ysgolion a chymunedau

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi barn am ddiweddariad drafft Llywodraeth Cymru i'r *Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela mewn Ysgolion* gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2011.

Sut i ymateb

Dylid ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein neu drwy lenwi'r holiadur ar gefn y ddogfen. Gellir anfon y rhain drwy e-bost neu'r post i'r cyfeiriadau isod.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 23 Hydref 2019.
Daw'r ymgynghoriad i ben ar 18 Rhagfyr 2019.

Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn adlewyrchu newidiadau amrywiol a wnaed i'r gyfraith a'r ddarpariaeth gwnsela ers i'r pecyn gwreiddiol gael ei gyhoeddi. Bydd y pecyn hwn yn disodli'r [Pecyn cymorth gweithredu cwnsela mewn ysgolion](#) a gyhoeddwyd yn 2011.

Gellir cael gafael ar y dogfennau ymgynghori o wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Manylion cyswllt

Tîm Iechyd a Lles mewn Ysgolion
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Mentalhealth.Schools@gov.wales



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer / Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

E-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Cyflwyniad

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw holi barn am y pecyn cymorth gweithredu diwygiedig ar gyfer cwnsela mewn ysgolion a chymunedau. Mae'r pecyn diwygiedig yn adlewyrchu newidiadau amrywiol a wnaed ers i'r canllawiau gwreiddiol gael eu cyhoeddi, newidiadau i'r gyfraith a pholisi er enghraifft, cynnydd yn y ddarpariaeth gwnsela i blant a phobl ifanc yn y gymuned, a'r defnydd o gwnsela ar-lein. Mae'n cynnwys safonau a chanllawiau diwygiedig i gwnselwyr a gwasanaethau cwnsela yng Nghymru er mwyn i ddarparwyr cwnsela mewn ysgolion ac, yn gynyddol felly o fewn y gymuned ehangach, allu darparu gwasanaethau sydd o ansawdd uchel, yn ddiogel, yn hawdd cael gafael arnynt ac ar gael lle mae eu hangen.

Pam rydym yn diwygio'r pecyn hwn?

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiweddarau canllawiau yn rheolaidd yn sgil newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi.

Nod y canllawiau diwygiedig hyn yw helpu ysgolion a cholegau i ddeall eu cyfrifoldebau cyfreithiol yn well ac egluro beth y dylai cwnsela effeithiol ei olygu. Mae rhai o'r newidiadau yn ffeithiol, gan adlewyrchu diwygiadau i ddeddfwriaeth Cymru, ond mae'r rhan fwyaf yn adlewyrchu'r arferion gorau. Gwnaed newidiadau eraill yn sgil awgrymiadau gan arweinwyr a darparwyr cwnsela awdurdodau lleol, er mwyn rhoi eglurder ychwanegol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi barn pobl ynghylch pa mor eglur a defnyddiol yw'r newidiadau a wnaed.

Ble rydyn ni arni ar hyn o bryd?

Diweddarwyd y canllawiau hyn yn sgil cydweithredu'n agos â gweithgor o arweinwyr a darparwyr cwnsela awdurdodau lleol o bob rhan o Gymru.

Cafwyd cryn fewnbwn hefyd gan gydweithwyr o Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain.

Pa newidiadau penodol rydym yn eu cynnig?

Mae pob un o'r newidiadau arfaethedig yn ffeithiol ac nid ydynt yn cynnig polisi gwahanol i'r hyn a amlinellir yn y pecyn cyfredol. Mae'r pwyslais yn dal i fod ar hyrwyddo arferion gorau a sicrhau cysondeb cymorth i blant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd a lles emosiynol.

Y prif newidiadau i'r ddogfen:

Mae'r pecyn diwygiedig yn adlewyrchu newidiadau amrywiol a wnaed ers i'r canllawiau gwreiddiol gael eu cyhoeddi, newidiadau i'r gyfraith a pholisi er enghraifft, cynnydd yn y ddarpariaeth gwnsela i blant a phobl ifanc yn y gymuned, a'r defnydd o gwnsela ar-lein. Bydd y pecyn diwygiedig yn ategu canllawiau eraill a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar gwestiwn hunanladdiad a hunan-niwed, ac mae'n elfen bwysig yn y broses o ddatblygu dull Llywodraeth Cymru o gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau emosiynol a llesiant ar lefel ysgol gyfan a system gyfan.

Mae'r pecyn yn cynnwys penodau newydd ar gwsela sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol, cwsela ar-lein, hunan-ofal cwselwyr a datblygiad proffesiynol parhaus.

Pecyn cymorth gweithredu drafft ar gyfer cwnsela mewn ysgolion a chymunedau

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

e-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **18 Rhagfyr 2019**:

Tîm Iechyd a Lles mewn Ysgolion
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: Mentalhealth.Schools@llyw.cymru

Cwestiwn 1 – Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid newid y pecyn cwnsela diwygiedig er mwyn helpu i hyrwyddo cysondeb y gwasanaeth cwnsela ledled Cymru a sicrhau bod y ddarpariaeth yr un mor hwylus i bob person ifanc fanteisio arni:

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno bod cynnwys y pecyn cwnsela diwygiedig yn briodol ac yn effeithiol? Os nad ydych, pa newidiadau pellach sydd eu hangen?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 3 – Ydych chi o'r farn bod y pecyn cwnsela diwygiedig yn cynnig y lefel iawn o gymorth i ddarparwyr cwnsela a rheolwyr gwasanaethau cwnsela o ran yr arferion gorau wrth ddarparu'r gwasanaeth mewn ysgol ac o fewn cymuned?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 4 – Ar ôl cyhoeddi'r pecyn cwnsela diwygiedig, pa weithgarwch (os o gwbl) (hyfforddiant a/neu weithgarwch codi ymwybyddiaeth ymhlith cynulleidfaoedd penodol, er enghraifft) fydd ei angen?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 5 – Hoffem wybod eich barn am effeithiau'r *Pecyn cymorth gweithredu drafft ar gyfer cwnsela mewn ysgolion a chymunedau* ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 6 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y pecyn cymorth arfaethedig:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 7 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: